



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

**Grŵp Rhaglen Glinigol Merched**  
Ysbyty Gwynedd Ffordd Penrhos, Bangor  
Gwynedd LL57 2PW

-----  
**Women's Clinical Programme Group**  
Ysbyty Gwynedd Hospital  
Penrhos Road, Bangor, Gwynedd LL57 2PW

Mr Mark Drakeford AM  
Cadeirydd yr Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Mr Mark Drakeford,

**Parthed: Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i mewn i farw-enedigaethau yng Nghymru.**

Ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, hoffwn ddiolch am y cyfle hwn i gyflawni tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i mewn i farw-enedigaethau yng Nghymru.

Fel y Pennaeth Staff Cysylltiol ar gyfer Gwasanaethau Merched a Phennaeth Bydwreigiaeth, rwyf yn amgau cynllun gweithredu lleol a ddatblygwyd i leihau nifer yr achosion o farw-enedigaethau yng Ngogledd Cymru. Cafodd y ddogfen hon ei chydgasglu o ddeunydd a ddarparwyd gan gydweithwyr ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Thîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru.

Os bydd angen unrhyw fanylion neu eglurhad pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

**Fiona Giraud**  
**Pennaeth Staff Cysylltiol – Nyrsio a Bydwreigiaeth**  
**Associate Chief of Staff – Nursing and Midwifery**



**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**  
**Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i mewn i farw-enedigaethau yng Nghymru**

**Mesurau Atal 'Achub y Blaen'**

<b>Elfennau/Ffactorau Risg sy'n Hysbys</b>	<b>Bwriad</b>	<b>Cynllun</b>	<b>Cynnydd</b>
Gofal cyn beichiogi ar gyfer Cyflyrau Meddygol penodol yn cael eu blaenoriaethu	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Adolygiad cyflawn o ddarpariaeth gyfredol cefnogaeth a chyngor cyn beichiogi ar draws Gogledd Cymru mewn partneriaeth â chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Lleol.</li> <li>▪ Datblygu Cynllun Gweithredu i roi argymhellion ar waith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae adolygiad a chrynodeb o argymhellion wedi cael eu cwblhau.</li> </ul>
Gordewdra yn ystod Beichiogrwydd	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Datblygu Llwybr Gordewdra Gogledd Cymru.</li> <li>▪ Datblygu cynigiad ar gyfer mynediad ar sail ardal leol at wasanaethau ar gyfer rheoli pwysau.</li> <li>▪ Adeiladu gallu cymunedau i gefnogi bwyta'n iach ac atal diffyg maeth trwy alluogi staff cymunedol i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu'r Llwybr Gordewdra Mamolaeth.</li> <li>▪ Lanswyd Llwybr fel dogfen yn y Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Tadolaeth Lleol yng Ngogledd Cymru ar 3.5.12</li> </ul>
Ysmygu	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhoi Cynllun Rheoli Tybaco BIPBC ar waith - sy'n nodi elfennau sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Bellach mae 40% o Fydwragedd Cymunedol wedi cael eu hyfforddi i ddarparu cefnogaeth rhoi'r gorau i ysmygu - negeseuon ymyrraeth gynnar</li> <li>▪ a mynd ati i ddangos y ffordd i</li> </ul>



Elfennau/Ffactorau Risg sy'n Hysbys	Bwriad	Cynllun	Cynnydd
			<p>ferched i Wasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd profi Carbon Monocsid yn ystod beichiogrwydd yn cael ei roi ar beilot yn ardal y Fflint.</li> </ul>
Merched sy'n byw mewn ardaloedd o Amddifadedd Cymdeithasol	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	Mae ymwneud parhaus yn bodoli â datblygiad prosiect Teuluoedd yn Gyntaf ac â phrosiectau penodol e.e. mentrau Dechrau'n Deg yn y Gymuned.	Adolygiad parhaus o ddarpariaeth yng ngoleuni anghenion y boblogaeth sy'n cael eu cyrchu bob blwyddyn.
Merched o grwpiau ethnig lleiafrifol	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddyd NICE am Beichiogrwydd a Ffactorau Cymdeithasol Cymhleth yn cael eu rhoi ar waith mewn canllawiau ymarfer lleol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Cyfarwyddyd NICE wedi cael ei integreiddio mewn polisïau ac ymarfer lleol.</li> <li>Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth, Newydd-anedig, Paediatrig ac Iechyd Plant Lleol - argymhellion yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol.</li> </ul>
Mamau yn eu harddegau	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio mewn partneriaethau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno'r prosiect LARC.</li> <li>Gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Rhaglen Glinigol Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu mynediad cyfartal at addysg rhyw a pherthnasau mewn ysgolion ar draws Gogledd Cymru.</li> <li>Bydwraig Beichiogrwydd yn ystod yr Ardegau mewn swydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno'r prosiect yn lleol yn y cyfnod cynllunio.</li> <li>Yn barhaus.</li> </ul>
Alcohol	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru lleol, adolygu tystiolaeth i ddarparu gwybodaeth ar gyfer dull systematig a chydlynol o fynd i'r afael â Chamddefnyddio Alcohol a Sylweddau yn ystod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygiadau cenedlaethol wedi'u nodi o fewn Iechyd Cyhoeddus. Darpariaeth leol negeseuon allweddol i ferched</li> </ul>



Elfennau/Ffactorau Risg sy'n Hysbys	Bwriad	Cynllun	Cynnydd
		beichiogrwydd, a'i ddatblygu – yn gysylltiedig â gwaith Sefydliad Iechyd y Cyhoedd.	yn barhaus fel gofal fel mater o drefn.

### Ymarfer ar Sail Tystiolaeth - Atal Cyn Geni

Cyfarwyddyd/Ymarfer	Bwriad	Cynnydd
“Antenatal Care Guidance: routine care for healthy pregnant women” NICE.	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Cyfarwyddyd ac ymarfer lleol wedi'u seilio ar y canllawiau hyn.</li> <li>Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod gofal yn adlewyrchu cyfarwyddyd.</li> <li>Mae beichiogrwydd sydd â risg o gymhlethdodau a marw-enedigaethau yn cael eu nodi ar adeg bwcio ac mae'r risg yn cael ei hasesu yn barhaus yn ystod y beichiogrwydd ac yn ystod pob cyswllt clinigol - ac mae merched risg uchel yn cael eu cyfeirio yn briodol i'r Tîm Obstetrig neu asiantaethau/timau meddygol eraill perthnasol yn unol ag anghenion clinigol. Yna bydd gofal yn cael ei gydlynu gan y fydwaig a enwyd yn unol â “Midwifery 20:20”.</li> <li>Yna bydd Cynlluniau Gofal arbennig yn cael eu datblygu i gynyddu lles gymaint â phosibl a lleihau risg yn unol â chyfarwyddyd a seiliwyd ar dystiolaeth leol.</li> <li>Mae hanes blaenorol cymhlethdodau beichiogrwydd a marw-enedigaethau yn cael eu cyfeirio i'r tîm obstetrig a chytunir ar gynllun penodol â threfniadau monitro.</li> </ul>
Cyfarwyddyd a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru.	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	Mae BIPBC yn cydymffurfio â Safonau a Chyfarwyddyd Cenedlaethol SCG Cymru. Mae safonau a chydymffurfiad yn cael eu monitro bob chwarter.
Sgrinio Twf Ffetws	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	Mae polisïau/cyfarwyddyd ac ymarfer lleol yn adlewyrchu canllawiau Gofal Cyn Geni NICE o ran mesur uchder y ffwndis



		symffysis. Mae unrhyw wyriad yn cael ei gyfeirio yn briodol ar gyfer asesiad pellach o angen a monitro.
Lleihad mewn Symudiadau'r Ffetws (RFM) Cyflwyniad RCOG – “Green-top Guideline 57 – Reduced Fetal Movements”.	Mae babanod yn cael eu geni'n iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae gwybodaeth ar gyfer staff a chleifion wedi cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn ddiwethaf parthed rheoli RFM.</li> <li>▪ Mae llwybr/cyfarwyddyd lleol ar gyfer rheoli RFM ar sail cyfarwyddyd y RCOG wedi cael ei ddatblygu ac ar hyn o bryd mae allan ar gyfer ymgynghori cyn ei ddilysu.</li> <li>▪ Hefyd mae taflenni gwybodaeth i gleifion sy'n adlewyrchu cyfarwyddyd y RCOG wedi cael eu datblygu ac maent yn aros am gymeradwyaeth derfynol.</li> </ul>

### **Mecanweithiau Monitro/Adrodd ar gyfer marw-enedigaethau.**

- Adroddir i LIC am bob genedigaeth fyw a marw-enedigaeth fel crynodeb chwarterol gorfodol ar y QSI.
- Adroddir i Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan am bob marw-enedigaeth.
- Adroddir i Fwrdd GRhG Merched bob mis am farw-enedigaethau ar Ddangosfwrdd Mamolaeth y RCOG.
- Adolygir pob marw-enedigaeth yn fewnol gan y GRhG Merched a bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaeth.
- Adroddir i LIC am bob marw-enedigaeth mewn-enedigol a bydd SIR priodol yn cael ei gynnwll. Bydd y GRhG Merched yn monitro argymhellion a chynlluniau gweithredu unrhyw ddysgu, gan y Grŵp Diogelwch Cleifion lleol, yn y Bwrdd Iechyd a bydd newyddion diweddaraf yn cael ei ddarparu yn syth i LIC yn unol â'r amserlen.

### **Datblygiadau Cenedlaethol – 1000 o Fywydau – Ymarfer Cwmpasu Grŵp Gwaith Cenedlaethol Marw-Enedigaeth**

- Bydd Arweinydd BIPBC yn cael ei nodi i arwain y gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r ymarfer cwmpasu.